# PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED POWYS

# DYDD MAWRTH, 7 HYDREF 2025

**YN BRESENNOL:** Yr Athro Ian Roffe (Aelod Annibynnol) (Cadeirydd)

**Aelodau o Gyngor Sir Caerfyrddin:**
Cyng. K. Davies, K. Howell ac M. Thomas

**Aelodau o Gyngor Sir Ceredigion:**
Cyng. E. Evans ac K. Evans

**Aelodau o Gyngor Sir Penfro:**
Cyng. J. Grimes ac S. Hancock

**Aelodau o Gyngor Sir Powys:**
Cyng. W. Powell

**Aelod Annibynnol:**
Mrs H.M. Thomas

**Yn Bresennol o Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu:**
Mr D. Llywelyn – Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Mrs C. Morgans – Y Prif Weithredwr

**Hefyd yn Bresennol:**
I. Charles – Prif Gwnstabl, Heddlu Dyfed-Powys
R. Edgecombe – Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol
R. Thomas – Uwch Gyfreithiwr
S. Rees – Cyfieithydd Ar Y Pryd
C. Jones – Swyddog y Cyfryngau
I. Phillips – Swyddog Cefnogi Aelodau [Gwe-ddarlledu]
D. Hall-Jones – Swyddog Cynorthwyol Gwasanaethau Democrataidd [Cymryd Nodiadau]

**Siambr - Neuadd Y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP - 2.12 - 3.13 YP**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB A MATERION PERSONOL

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Liz Rijnenberg (Cyngor Sir Powys), Cynghorydd Wyn Thomas (Cyngor Sir Ceredigion), a'r Cynghorydd Les George (Cyngor Sir Powys).

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddatganwyd dim buddiannau.

## 3. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR YR 18FED GORFFENNAF 2025

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2025 yn gofnod cywir.**

## 4. MATERION YN CODI O'R COFNODION (OS OES RHAI)

Nid oedd dim materion yn codi o gofnodion y cyfarfod.

## 5. GWRANDAWIAD CADARNHAU YNGHYLCH PENODI'R PRIF GWNSTABL

Gofynnwyd i'r Panel adolygu'r bwriad i benodi Prif Gwnstabl newydd ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys.

Mae Atodlen 8 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Panel adolygu'r penodiad arfaethedig y Comisiynydd ynghylch a ddylid penodi'r ymgeisydd ai peidio.

Wrth amlinellu'r adroddiad, rhoddodd y Comisiynydd amlinelliad o fanylion allweddol y broses recriwtio, a arweiniodd at ddewis Mr Ifan Charles fel yr ymgeisydd a ffefrir ar gyfer y swydd.

Croesawodd y Cadeirydd, ar ran y Panel, yr ymgeisydd a ffefrir i'r cyfarfod ac esboniodd fod pum cwestiwn ffurfiol wedi'u drafftio i asesu a oes gan yr ymgeisydd y cymhwysedd proffesiynol a'r annibyniaeth bersonol sy'n ofynnol ar gyfer y rôl. Roedd y pum cwestiwn ac ymatebion yr ymgeisydd fel a ganlyn:

**A allwch ddangos sut rydych wedi cynnwys cymunedau a phartneriaid lleol mewn plismona yn ei ystyr ehangaf, ac, yn benodol, sut rydych wedi deall a diwallu anghenion y gymuned leol?**

- Nid oedd y Llu'n bodloni'r disgwyliadau o'r blaen o ran ymgysylltu â chymunedau a chafodd hyn ein nodi fel maes ar gyfer gwelliant gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub ei Mawrhydi.
- Ers hynny, mae'r Llu wedi ymgymryd â gwaith i ddeall y meysydd i'w gwella, gan gynnwys meincnodi yn erbyn lluoedd eraill ledled Cymru a Lloegr, a chwilio am enghreifftiau o arfer gorau.
- Maes gwelliant allweddol a nodwyd oedd cryfhau cysylltiadau ac ymgysylltiad cymunedol. Mae'r Llu wedi datblygu Cynllun Ymgysylltu'r Tîm Plismona ac Atal Bro ynghyd â chwe sianel ymgysylltu gymunedol, i gefnogi hyn.
- Ers ymgymryd â rôl y Prif Gwnstabl, nodwyd ychwanegiadau pellach i'r Cynllun, yn enwedig ymgysylltu â mudiadau gwirfoddol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau ymgysylltiad effeithiol ar draws yr holl sefydliadau gwirfoddol ar draws yr Heddlu.
- Mae ymgysylltu â chymunedau yn hanfodol i wrando ar eu pryderon a nodi'r ffyrdd gorau i'w cefnogi.
- Nid oedd blaenoriaethau cymunedol wedi cael eu cyhoeddi o'r blaen ar wefan allanol y Llu. Mae'r Prif Gwnstabl wedi cydnabod yr angen am atebolrwydd yn y maes hwn.

- Cynhelir cyfarfodydd perfformiad rheolaidd gan y Dirprwy Brif Gwnstabl a'r Prif Gwnstabl i adolygu pwrpas y Cynllun Ymgysylltu a Phlismona Bro gan sicrhau atebolrwydd ar gyfer ymgysylltiad cymunedol. Mae'r chwe sianel ymgysylltu hefyd yn helpu i sicrhau hyn.
- Er bod ymgysylltu â'r gymuned wedi bod yn anghyson o'r blaen, mae hyder ei fod bellach ar lefel briodol; fodd bynnag, mae’r angen yn parhau i wrando, dysgu a gwella wrth ymgysylltu â chymunedau.

**Ar sail eich profiad yn y gorffennol, rhoddwch enghreifftiau o sut y byddwch yn rheoli'r berthynas â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, yn enwedig pan fo gwahaniaeth barn?**

- Mae cynnal perthynas gynhyrchiol, barchus â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn agwedd hanfodol ar y rôl.
- Mae rhan o hyn yn cynnwys deall ei bod yn briodol anghytuno'n barchus ar rai materion, yn enwedig pan fo materion yn effeithio ar y cyhoedd, dioddefwyr, neu'r gweithlu.
- Mae perthynas iach yn cael ei adeiladu ar ymddiriedaeth, o ran bod yn dryloyw, cyfnewid gwybodaeth a chael trafodaethau gonest ar yr hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio, er mwyn gallu darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'r cyhoedd.
- Mae Protocol Plismona 2023 yn darparu canllawiau pwysig ar y berthynas rhwng y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, yn enwedig ar gyfer cynnal annibyniaeth weithredol. Mae'r Prif Gwnstabl yn ffodus i weithio gyda Chomisiynydd Heddlu a Throseddu sy'n parchu hyn ac yn caniatáu iddynt gael trafodaethau ar feysydd i'w gwella.
- Mae'r berthynas rhwng y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn ymwneud â gwasanaethu lles cyffredinol a gwneud yr hyn sy'n iawn i'r cyhoedd a dioddefwyr, mae hyn yn sylfaenol i'r modd y maent yn gweithio.

**Sut ydych wedi gallu codi safonau proffesiynoldeb yn y gweithlu? Beth yw eich blaenoriaethau o ran datblygu safonau proffesiynol?**

- Mae heriau cenedlaethol a amlinellwyd yn y cyfryngau yn ddiweddar ynghylch safonau plismona yn bodoli ar draws pob llu; felly, mae'n hanfodol bod yn realistig ynghylch cynnydd presennol yr heddlu wrth fynd i'r afael â'r heriau hyn a'r gwaith sydd angen ei wneud.
- Mae codi safonau yn dechrau gyda dull arweinyddiaeth gynhwysol a moesegol. Mae hyn yn cynnwys bod yn dosturiol a thrin pawb gyda thegwch a pharch. Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cael ei achredu gan y Coleg Plismona ar Lefelau 1, 2 a 3, fel un o chwe llu ledled Lloegr a Chymru ar gyfer eu cwrs arweinyddiaeth.
- Rhan allweddol o Gynllun Cyflawni Strategol y llu yw'r addewid ynghylch diwylliant, sy'n cael ei ategu gan egwyddorion craidd Côd Moeseg y Coleg Plismona. Sef: gweithio gyda'n gilydd i gyflawni'r cynllun, herio ein gilydd, tynnu sylw at ymddygiad gwael ar bob lefel, ymdrechu i fod yn well yfory ac adeiladu timau ffyniannus, tosturiol.
- Mae'r Strategaeth Diwylliant Pobl 2025-2029 yn canolbwyntio ar godi safonau, sy'n cynnwys Fframwaith Canlyniadau sy'n helpu i fesur cynnydd

ac yn sicrhau llywodraethu, atebolrwydd a chyfathrebu effeithiol o amgylch y ffocws hwn, gan gynnwys cyfarfodydd gyda'r Prif Gwnstabl bob dau fis.

**Rhowch enghraifft i mi o sut rydych wedi goresgyn gwrthwynebiad i newid o fewn y sefydliad? Sut byddech yn penderfynu beth yw strategaeth arweinyddiaeth effeithiol a sut ydych wedi ysbrydoli'r rheiny sydd dan eich awdurdod?**

- Mae'r Strategaeth Arweinyddiaeth yn glir ac wedi'i chyfathrebu'n dda ar draws y sefydliad. Pwysleisir gwrando gweithredol i nodi blaenoriaethau, heriau, a chyfeiriad cyffredinol yr Heddlu.
- Fel rhan o'r broses Cynllunio Strategol, mae'r Prif Gwnstabl yn cynnal Diwrnodau Arweinyddiaeth bob pedwar mis gyda thîm arweinyddiaeth y Llu. Mae'r sesiynau hyn yn adolygu blaenoriaethau sefydliadol, dulliau strategol, a'r fframwaith ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau hynny. Mae trafodaethau myfyriol hefyd wedi'u cynnwys i ganiatáu i arweinwyr nodi meysydd posibl i'w gwella.
- Er mwyn ategu gwrando yn effeithiol, mae hefyd yn hanfodol i fod yn barod i addasu. Enghraifft ddiweddar o hyn oedd newid a gyflwynwyd mewn blwyddyn o fewn un o'r Timau Plismona.
- Nododd trafodaethau gyda'r Tîm Plismona, gyda chefnogaeth data, yr angen i addasu i'r newid hwn, gyda 10 sesiwn wrando yn cael eu cynnal gyda'r tîm a'u cymheiriaid i ddeall beth oedd yn gweithio'n dda, mynd i'r afael â heriau, a sicrhau bod yr angen a nodwyd am newid pellach yn gwasanaethu buddiannau gorau dioddefwyr, y cyhoedd, a ffordd y tîm o weithio. Nododd y Prif Gwnstabl y byddai hwn yn ddull y mae'n anelu at ei ailadrodd ar gyfer newid sefydliadol nawr ac yn y dyfodol.

**Yn strategol, bydd yn rhaid i wasanaeth yr heddlu gydbwyso gwahanol flaenoriaethau ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Amlinellwch i'r panel eich ymwybyddiaeth o'r materion hyn a sut ydych wedi blaenoriaethu eich ymagwedd strategol ar gyfer pob un ohonynt.**

- Ar y lefel fwyaf, gall Adolygiad Cynhyrchiant Llywodraeth y DU a'r Papur Gwyn Plismona disgwyliedig gyflwyno heriau i'r Llu, yn enwedig o ran gostyngiadau posibl yn nifer yr heddluoedd ac effeithiau posibl ar y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Plismona a phrosesau caffael.
- Mae'n hanfodol ystyried yr heriau cenedlaethol disgwyliedig hyn fel cyfleoedd posibl ar gyfer gwella. Fodd bynnag, rhaid i'r Llu fod yn ofalus bod y cyfleoedd hyn o fudd i'r rhai sy'n byw yn Nyfed-Powys.
- Yng Nghymru, mae disgwyl i etholiadau lleol 2026 fod yn her, yn enwedig oherwydd gallai'r sgyrsiau ynghylch yr etholiad gynyddu tensiynau cymunedol. Mae hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd y dull ymgysylltu cymunedol y mae'r Llu yn ei ddefnyddio, yn enwedig pan fo materion yn codi, a sut y gall y Llu helpu i reoli'r materion hynny.
- O safbwynt y Llu, mae'r heriau disgwyliedig yn deillio o lefel genedlaethol a rhanbarthol, yn ogystal â ffactorau eraill sy'n berthnasol i'r ardal. Bydd y Cylch Cynllunio Strategol a Sicrwydd yn helpu'r Llu i ddeall a mynd i'r afael â heriau ar draws pob lefel yn effeithiol, er mwyn galluogi'r penderfyniadau

gorau ynghylch y strategaeth a darparu gwasanaeth da i gymunedau a dioddefwyr.
- Mae gweithio gydag eraill mewn gwahanol sectorau o fewn gwasanaethau cyhoeddus trwy fentora ar draws gwasanaethau hefyd wedi'i nodi fel dull perthnasol i helpu i lywio'r heriau hyn yn strategol.

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau dilynol gan y Panel yn ymwneud â'r ymatebion i’r pum cwestiwn a godwyd gan aelodau'r Panel, ac ymatebodd yr ymgeisydd iddynt yn unol â hynny.

Yn dilyn yr ymatebion a ddarparwyd, cafodd y Panel sicrwydd fod Mr Ifan Charles wedi dangos y cymhwysedd proffesiynol a'r annibyniaeth bersonol sy'n ofynnol ar gyfer y rôl. Mynegodd y Cadeirydd, ar ran y Panel, ei longyfarchiadau i'r ymgeisydd ar ei benodiad a dymunodd bob llwyddiant iddo yn ei rôl newydd.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi penodiad Mr Ifan Charles fel Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys.**

| | |
|---|---|
| ___________________________ | ____________________ |
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |